


Cysylltiadau ag agweddau eraill ar y Cwricwlwm

Mae'r darnau y cyfeirir atynt isod yn darparu cyfleoedd i gysylltu â meysydd eraill o'r Cwricwlwm:

Rhifyn 7

Darn	Cyfleoedd i gysylltu â'r meysydd canlynol:
Wythnos Siocled	Mathemateg <ul style="list-style-type: none"> cyfle i wneud ac i ddefnyddio holiaduron ac i greu graffiau i ddangos y canfyddiadau; cyfle hefyd i egluro'r graffiau cyfle hefyd i ddefnyddio canrannau mewn perthynas â'r uchod Technoleg Gwybodaeth a Chyfathrebu <ul style="list-style-type: none"> darganfod gwybodaeth berthnasol mewn perthynas â siocled trosglwyddo gwybodaeth ar ffurf testun a delweddau Daearyddiaeth <ul style="list-style-type: none"> cyfle i chwilio am wledydd sy'n cynhyrchu ffa coco ar fap o'r byd Hanes <ul style="list-style-type: none"> cyfle i chwilio am wybodaeth am hanes siocled
Ble mae Sam?	Cerddoriaeth <ul style="list-style-type: none"> cyfle i wrando ar ddarnau gwahanol o gerddoriaeth a'u gwerthuso Technoleg Gwybodaeth a Chyfathrebu <ul style="list-style-type: none"> darganfod gwybodaeth berthnasol mewn perthynas â gŵyl gerdd Celf <ul style="list-style-type: none"> cyfle i wneud poster i hysbysebu gŵyl gerdd
Socci	Addysg gorfforol <ul style="list-style-type: none"> cyfle i gymryd rhan mewn gweithgaredd corfforol cyfle i ddatblygu technegau, sgiliau, strategaethau a thactegau
Rhyfedd!	Mathemateg <ul style="list-style-type: none"> cyfrifo gostyngiadau a chanrannau Dylunio a Thechnoleg <ul style="list-style-type: none"> meddwl mewn modd creadigol ac arloesol wrth gynhyrchu syniadau ar gyfer eu cynhyrchion
Siocled! Siocled! Siocled!	Daearyddiaeth <ul style="list-style-type: none"> cyfle i chwilio am wledydd sy'n cynhyrchu ffa coco ar fap o'r byd Mathemateg <ul style="list-style-type: none"> cyfrifo cymarebau
Bwyta ar y we	Daearyddiaeth <ul style="list-style-type: none"> cyfle i chwilio am leoliad Korea ar fap ac i chwilio am wybodaeth am y wlad Technoleg Gwybodaeth a Chyfathrebu <ul style="list-style-type: none"> trosglwyddo gwybodaeth ar ffurf testun a delweddau
Bwyta allan	Daearyddiaeth <ul style="list-style-type: none"> cyfle i chwilio am leoliad y canlynol ar fap o'r byd ac i chwilio am wybodaeth bellach: Korea, Taiwan, Japan, China, Riga yn Latvia a Jakarta yn Indonesia



Kung fu	Addysg gorfforol <ul style="list-style-type: none">cyfle i gymryd rhan mewn gweithgaredd corfforolcyfle i ddatblygu technegau, sgiliau, strategaethau a thactegau
Siocled teg	Technoleg Gwybodaeth a Chyfathrebu <ul style="list-style-type: none">darganfod gwybodaeth berthnasol mewn perthynas â Masnach Degtrosoglwyddo gwybodaeth ar ffurf testun a delweddau Mathemateg <ul style="list-style-type: none">cyfrifo elw a chanrannaudatblygu manyleb ar gyfer eu gwaitharchwilio, datblygu a chyfleu'u syniadau dylunio mewn ystod o ffyrdd Daearyddiaeth <ul style="list-style-type: none">cyfle i chwilio am wledydd sy'n cynhyrchu ffa coco ar fap o'r byd
Hunluniau	Hanes <ul style="list-style-type: none">cyfle i ymchwilio mwy i Robert Cornelius a'r lluniau cynharafcyfle i ymchwilio i "Y person cyntaf i ..." Addysg Bersonol a Chymdeithasol <ul style="list-style-type: none">cyfle i drafod diogelwch wrth dynnu hunluniau a'u hanfon drwy ffonau symudol, yn enwedig secstio.

Y cwricwlwm Cymreig

Mae cyfle i ddysgu'r gân Sosban Fach.

Yn ogystal, bydd cyfleoedd drwyddi draw i gwrdd â gofynion y Fframwaith Sgiliau, e.e.

Datblygu meddwl


Bydd y dysgwyr yn datblygu eu meddwl ar draws y cwricwlwm trwy'r prosesau **cynllunio, datblygu a myfrio**:

- archwilio, cynllunio, datblygu ac ystyried syniadau drwy siarad, darllen ac ysgrifennu ac ymateb i'w gwaith eu hunain ac i waith eraill
- dadansoddi, strwythuro a threfnu eu gwaith
- defnyddio iaith yn greadigol
- defnyddio gwallau a chanlyniadau annisgwyl i ddatblygu eu dysgu
- defnyddio eu gwybodaeth o iaith i egluro a rhagfynegi
- adnabod patrymau a ffurfio rheolau
- trafod sut byddant yn dysgu iaith ac yn gwerthuso eu llwyddiant.

Datblygu cyfathrebu

Bydd y dysgwyr yn datblygu eu sgiliau cyfathrebu ar draws y cwricwlwm trwy'r sgiliau **llafaredd, darllen, ysgrifennu a chyfathrebu ehangach**:

- cyfathrebu trwy lafaredd, darllen ac ysgrifennu, gan ddatblygu'r sgiliau hyn trwy werthuso'u gwaith eu hunain a gwaith eraill
- dysgu sut i gyfathrebu yn effeithiol ar gyfer ystod o ddibenion a chydag ystod o gynulleidfaoedd.
- ymdrin ag iaith estynedig a mwyfwy cymhleth er mwyn datblygu i ddefnyddio iaith yn annibynnol ac yn hyderus.



Datblygu TGCh

Bydd y dysgwyr yn datblygu eu sgiliau TGCh ar draws y cwricwlwm trwy **ddarganfod, datblygu, creu a chyflwyno gwybodaeth a syniadau** a thrwy ddefnyddio ystod eang o offer a meddalwedd:

- cyfathrebu a rhannu gwybodaeth
- defnyddio technoleg ar gyfer ymchwil, datblygu a chyflwyno'u gwaith.

Datblygu rhif

Bydd y dysgwyr yn datblygu eu sgiliau rhif ar draws y cwricwlwm trwy **ddefnyddio gwybodaeth fathemategol, cyfrifo, a dehongli a chyflwyno casgliadau:**

- defnyddio trefnolion a rhifolion
- cywain gwybodaeth mewn gwahanol ffyrdd
- cyrchu, dethol, cofnodi a chyflwyno data mewn gwahanol fformatau.

[Cymraeg yng Nghwricwlwm Cenedlaethol Cymru, 2008, tud. 7]

